| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Pwyllgor Iaith |
| Dyddiad | 29 Mehefin 2026 |
| Teitl | Adroddiad Blynyddol y Gymraeg |
| Awduron | Nia Haf Lewis a Llywela Haf Owain<br>Ymgynghorwyr Iaith<br>Llio Mai Dafydd, Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg |
| Pwrpas yr Adroddiad | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymell i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor "*lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*"

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau
- nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);
- nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);
- os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –
    - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
    - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,
    - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
    - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2026, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i’r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2026.

## 2. CRYNODEB O’R ADRODDIAD

2.1 Mae’r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu’r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae’r data allweddol yn cynnwys:

- 99.3% o staff y Cyngor yn medru ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg
- 91.6% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi
- 111 wedi mynychu hyfforddiant iaith
- 1,092 aelod o staff wedi cwblhau'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith

2.2 Mae’r adroddiad yn nodi ymholiadau neu gwynion cydymffurfio sydd wedi cyrraedd Tîm y Gymraeg yn ystod y flwyddyn o ran y polisi iaith y Cyngor, Safonau’r Gymraeg ac enwau lleoedd.

2.3 Eleni mae enghreifftiau arfer dda, i adlewyrchu enghreifftiau o waith Tîm y Gymraeg, cyd-weithio a phrosiectau holl adrannau’r Cyngor, i hybu a hyrwyddo’r Gymraeg a chyfrannu at Strategaeth Iaith y Cyngor. Maent yn enghreifftiau blaengar unigryw, sydd yn pwysleisio bod Gwynedd ar flaen y gad efo cynnig gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog i’r cyhoedd. Mae uchafbwyntiau rhain yn cynnwys:

- Dros 100 o ffrydiau gwaith ar draws adrannau’r Cyngor sydd wedi rhoi sylw i hybu’r Gymraeg
- 328K o wylwyr ar draws fideos TikTok Prosiect 15
- Cefnogaeth i waith Menter Iaith Gwynedd yn ein cymunedau
- Prosiect Enwau Lleoedd
- Ap Niwro Cymru
- Polisi Gosod Tai Cyffredin

2.4 Mae hefyd yn amlygu rhai o’r heriau fydd yn cael sylw gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg i’r trigolion ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau’r Gymraeg.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i’r aelodau:

- Dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol
- Cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad
- Argymell i’r Aelod Cabinet gyhoeddi’r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2026.